# Rhaglen Datblygu Cig Coch

RHAGLEN DATBLYGU
CIG COCH
RED MEAT
DEVELOPMENT PROGRAMME

STOC+
IECHYD PRAIDD A BUCHES
FLOCK AND HERD HEALTH

CYNLLUN
HYRDDOD MYNYDD
HILL RAM
SCHEME

ANSAWDD
CIG OEN CYMRU
WELSH LAMB
MEAT QUALITY







HYBU CIG CYMRU
MEAT PROMOTION WALES

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig:
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development:
Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government




RHAGLEN DATBLYGU
CIG COCH
RED MEAT
DEVELOPMENT
PROGRAMME

hybucig.cymru | meatpromotion.wales
twitter.com/RMDPcymru | twitter.com/HybuCigCymru
facebook.com/HybuCigCymru/
instagram.com/hccmpw/

4038_HCC_RMDP_A5_Booklet_Oct19_Cy_V4_FIN.indd 2 06/11/2019 17:37

# Rhaglen Datblygu Cig Coch (RMDP)

Y diwydiant cig coch yw sylfaen economi wledig Cymru a'i sector bwyd a diod. Rhaid iddo ateb gofynion y defnyddiwr, sef cig o ansawdd uchel wedi'i gynhyrchu i'r safonau uchaf o ran lles a chynaliadwyedd.

Mae **Hybu Cig Cymru (HCC)** wedi datblygu Rhaglen Datblygu Cig Coch (RMDP) arloesol er mwyn hybu sector cig coch Cymru tua'r dyfodol. Bydd y Rhaglen flaengar hon, a fydd yn para am bum mlynedd, yn helpu'r sector i baratoi ar gyfer dyfodol llewyrchus ar adeg pan fo ansicrwydd yn bodoli.

Ei phwrpas yw ymgysylltu â holl agweddau'r gadwyn gyflenwi, gan hybu cynhyrchiant a phroffidioldeb ffermydd a gwneud yn siŵr hefyd fod cynhyrchu cig coch yn y dyfodol yn ateb gofynion defnyddwyr gartref a thramor, gyda golwg ar sut maen nhw'n newid ac yn mynd yn fwy craff.

Bydd RMDP yn cynnwys tri phrosiect pwysig a fydd yn canolbwyntio ar iechyd anifeiliaid, geneteg ac ansawdd cig.

O fewn **Stoc+**, y prosiect cynllunio iechyd anifeiliaid, bydd HCC yn cyflwyno – ar y cyd ag ymarferwyr milfeddygol – cynllun uchelgeisiol a fydd yn dangos y buddion hirdymor sy'n deillio o fod yn rhagweithiol wrth gynllunio iechyd diadelloedd a buchesi.

Bydd y **Cynllun Hyrddod Mynydd** yn ceisio cefnogi'r sector defaid mynydd, sef sector sy'n hanfodol bwysig, trwy dynnu sylw at sut y gall defnyddio hyrddod â pherfformiad genetig hysbys gael effaith gadarnhaol ar ddefaid Cymru.

**Ansawdd Cig Oen Cymru** yw'r drydedd elfen. Bydd y prosiect yn asesu ac yn datblygu ansawdd bwyta Cig Oen Cymru gan edrych ar y gadwyn gyflenwi ar ei hyd. Bydd yn canolbwyntio ar werthuso arferion y gellir eu gweithredu cyn ac ar ôl i'r ŵyn adael y fferm er mwyn diogelu a gwella enw da Cig Oen Cymru fel cynnyrch premiwm.

Bydd yr elfennau hyn yn yr RMDP yn helpu'r diwydiant cig coch i gynhyrchu cynhyrchion o ansawdd uchel a sbarduno gwelliannau a fydd yn hanfodol i wneud y sector yn gystadleuol, cynaliadwy a llwyddiannus yn y dyfodol. Mae ffermio da byw yng Nghymru yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i'r amgylchedd, a bydd y prosiectau'n annog ffermwyr i feddwl am eu gallu i wthio'r cyfraniad yma i'r lefel nesaf ac ystyried eu rhan mewn lleihau allyriadau tŷ gwydr ymhellach.

Cefnogir y rhaglen gan Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020, sy'n cael ei ariannu gan y Gronfa Amaethyddol Ewropeaidd ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru.



4038_HCC_RMDP_A5_Booklet_Oct19_Cy_V4_FIN.indd 1 06/11/2019 17:37

**STOC+**
IECHYD PRAIDD A BUCHES
FLOCK AND HERD HEALTH

Nod y prosiect **Stoc+** yw helpu ffermwyr yng Nghymru i gydweithio'n agos â'u milfeddygon ar gynlluniau iechyd anifeiliaid rhagweithiol.

Mewn marchnad ansefydlog, dylai cynhyrchwyr fod yn fwy ymwybodol o fyd busnes er mwyn gwneud y sector yng Nghymru'n fwy cystadleuol. Dyna yw sylfaen Stoc+ sy'n adeiladu ar bwysigrwydd iechyd a lles anifeiliaid er mwyn cynhyrchu'n fwy effeithlon a chynyddu proffidioldeb mentrau ffermio.

Yn ystod y gwaith hwn, bydd HCC yn dod a chroestoriad cynrychioliadol o hyd at 500 o gynhyrchwyr defaid a gwartheg cig ledled Cymru at ei gilydd a'u hannog i atal clefydau yn hytrach na'u trin. Bydd y rhai sy'n cymryd rhan yn clywed am y manteision o gael cynlluniau iechyd i'w hanifeiliaid a defnyddio'r cynlluniau hynny'n rhagweithiol i wneud y fferm yn fwy cynaliadwy, gwella elw a datblygiad y busnes a gwneud safonau uchel iechyd a lles anifeiliaid yn uwch fyth.

Bydd yr holl ffermwyr sy'n cymryd rhan yn derbyn cyngor arbenigol ymarferol, a chymorth am hyd at dair blynedd. Yn ogystal, byddant yn elwa o Gynllun Iechyd a Chynllun Gweithredu wedi eu cynhyrchu'n benodol ar gyfer eu diadelloedd a buchesi, ac ymweliadau adolygol gan filfeddygon, arweiniad proffesiynol a chymorth gan ymarferwyr lleol i weithio tuag at dargedau penodol.

Yn y pen draw, bydd cael gwell cynllunio ar gyfer iechyd anifeiliaid a gwneud cynhyrchu yn fwy effeithlon yn cyfrannu at ateb gofynion y defnyddwyr a'u gwneud yn fwy hyderus ynghylch bwyta Cig Oen Cymru PGI a Chig Eidion Cymru PGI.





4038_HCC_RMDP_A5_Booklet_Oct19_Cy_V4_FIN.indd 2 06/11/2019 17:37





4038_HCC_RMDP_A5_Booklet_Oct19_Cy_V4_FIN.indd 3 06/11/2019 17:37

CYNLLUN HYRDDOD MYNYDD
HILL RAM SCHEME

Profwyd bod gwelliant genetig yn ffordd gost-effeithiol o wneud cynhyrchu anifeiliaid yn gynyddol fwy effeithlon, a bydd **Cynllun Hyrddod Mynydd** HCC yn anelu at ddangos hyn dan rai o'r amodau llymaf yng Nghymru.

Yn bennaf, bydd y Cynllun Hyrddod Mynydd yn annog ffermwyr mynydd i fynd i'r afael â chofnodi perfformiad, sy'n golygu y bydd ffermwyr sy'n rhan o'r prosiect yn cofnodi data yn cynnwys manylion rhieni, pwysau geni ŵyn a chyfraddau twf er mwyn derbyn dadansoddiad genetig o sut mae defaid unigol yn perfformio o fewn y ddiadell.

Bydd deall, defnyddio a gweld geneteg y ddiadell yn caniatáu ffermwyr i dargedu twf a phesgi, heb gael effaith ar allu'r mamogiaid i oroesi dan amodau anodd a fydd, yn y pen draw, yn helpu ffermwyr mynydd i fynd i'r afael â gofynion modern y farchnad.

Bydd cnewyllyn craidd o 45 o ddiadelloedd, gan gynnwys saith Diadell Arweiniol, yn cael eu defnyddio yn y prosiect. Bydd y diadelloedd hyn yn creu rhwydwaith amrywiol i'r Cynllun Hyrddod Mynydd, gydag amrywiaeth o ran maint y ddiadell, y math o frîd mynydd, daearyddiaeth y lleoliad a'r system reoli.

Bydd yr holl ffermwyr sy'n cymryd rhan yn cael cymorth i gofnodi perfformiad genetig eu diadelloedd – boed hynny â llaw neu drwy ddull electronig. Byddant hefyd yn derbyn arweiniad ar



ddadansoddi a dehongli data genetig i'w helpu i wneud penderfyniadau cynllunio yn y dyfodol ar gyfer eu diadelloedd.

Byddant hefyd yn cael hyfforddiant a chyngor ynghylch marchnata ar gyfer hyrwyddo a gwerthu eu hyrddod. Yn ystod cam olaf y prosiect, sefydlir arwerthiant Cynllun Hyrddod Mynydd.

Yn system ddefaid haenedig Cymru, mae mamogiaid mynydd yn rhan sylweddol o ddiadelloedd y tir isel. Felly, bydd nodi geneteg elit yn y ddiadell fynydd yn caniatáu i'r buddion a'r gwelliannau ffrydio drwy'r holl ddiwydiant defaid yng Nghymru.



4038_HCC_RMDP_A5_Booklet_Oct19_Cy_V4_FIN.indd 4 06/11/2019 17:37





4038_HCC_RMDP_A5_Booklet_Oct19_Cy_V4_FIN.indd 5 06/11/2019 17:37

ANSAWDD
**CIG OEN CYMRU**
**WELSH LAMB**
MEAT QUALITY

Mae Cig Oen Cymru PGI yn gynnyrch sy'n cael cydnabyddiaeth ymhell ac agos am ei safon premiwm. Nod y prosiect **Ansawdd Cig Oen Cymru** yw cryfhau hyn ymhellach.

Mae HCC yn gweithio ar draws y gadwyn gyflenwi i gynnal a dyrchafu enw da Cig Oen Cymru. Mewn partneriaeth â phob agwedd o'r gadwyn gyflenwi – o'r cynhyrchwyr, i'r proseswyr a'r prynwyr – mae'n anelu at sefydlu model i'r gadwyn gyflenwi sy'n seiliedig ar baneli blasu sy'n cynnwys cannoedd o ddefnyddwyr ledled y DU.

Bydd yn ceisio nodi unrhyw amrywiadau o ran ansawdd bwyta o'r tu mewn i'r gadwyn gyflenwi a gwerthuso sut mae'r rhain yn effeithio ar dri ffactor allweddol, sef breuder, blas a suddlonder. Mae enghreifftiau o'r amrywiadau hyn yn cynnwys geneteg, systemau ffermio a natur dymhorol y cynnyrch, i enwi ond ychydig.

Bydd canfyddiadau'r paneli blasu yn cael eu defnyddio i sefydlu asesiad o amrywiad mewn ansawdd cig. Yna bydd tîm y prosiect yn creu canllawiau ansawdd bwyta a fydd yn ceisio hybu cysondeb trwy nodi a dylanwadu ar arferion allweddol wrth gynhyrchu a phrosesu cig defaid.

Bydd y gwaith hwn hefyd yn anelu at wella oes silff Cig Oen Cymru PGI. Byddai ymestyn ei oes silff yn dod ag enillion ychwanegol i'r gadwyn gyflenwi, yn cynyddu gwerth y cynnyrch yn y farchnad ac yn gwella cyfleoedd i'w allforio. Am yr un rhesymau, bydd lleihau gwastraff yn ystyriaeth arall bwysig yn y prosiect er mwyn rhoi hwb i'r sector gyfan i gynhyrchu'n fwy proffidiol.

Yn ogystal, bydd gwaith yn cael ei wneud ar ddatblygu dealltwriaeth ddofn o anghenion cwsmeriaid a'u hagweddau tuag at Gig Oen Cymru.







4038_HCC_RMDP_A5_Booklet_Oct19_Cy_V4_FIN.indd 6 06/11/2019 17:37